# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 330A2017



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Paul Goodlad ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno


Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus 4

Argymhellion 5

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 6


## Atodiadau


Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 11

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 12

Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 15

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ei hun i adolygu a gwerthuso. Ar gyfer 2016-17, cynaliasom waith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau a chynllunio ac adrodd ar welliannau. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Arddangosyn 1.

## Mae’r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac ar y gwaith hwnnw yn unig, mae’r Archwilydd Cyffredinol o’r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion  Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau sy'n ei wynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn darganfod pethau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn dilyn trywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, bydd yn rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac yn erbyn argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith o asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

## Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

Disgrifiad o’r gwaith a gyflawnwyd ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny’n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Mai 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau**<br>Adolygiad o drefniadau llywodraethu’r Cyngor wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | **Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a chynhwysol ar y cyfan ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau.**<br>Daethpwyd i’r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau, gydag amcanion clir a gaiff eu dylanwadu gan randdeiliaid;<br>• mae’r trefniadau llywodraethu a’r atebolrwydd ar gyfer prosesau penderfynu ar newidiadau i wasanaethau wedi’u diffinio’n glir ac wedi eu deall;<br>• ymddengys bod y gwaith o arfarnu dewisiadau sy’n ymwneud â newidiadau i wasanaethau yn gynhwysfawr ac yn glir, ac yn cadw cyfrinachedd pan fo hynny’n briodol;<br>• mae gan y Cyngor drefniadau clir sy’n annog rhanddeiliaid i ymgysylltu â’r broses benderfynu;<br>• mae’r trefniadau ar gyfer monitro effaith y penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond nid yw’r gwaith craffu wedi’i ddiffinio’n glir yn y broses adolygu; ac<br>• mae’r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau penderfynu yn rheolaidd. | C1 Gallai trefniadau llywodraethu’r Cyngor gael eu cryfhau trwy ddiffinio’n glir y rhan y dylai fod gan waith craffu mewn adolygu effaith newidiadau unigol i wasanaethau – a chynnwys hyn mewn blaengynllun(iau) gwaith pan fo hynny’n briodol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau;<br>• mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; ac<br>• nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi canfod unrhyw faterion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 nac ar systemau ariannol allweddol. | Dim |
| Chwefror 2017 | **Cynllunio arbedion**<br>Review of Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer arbedion ariannol, gan gynnwys i ba raddau y mae'n llwyddo i sicrhau'r arbedion angenrheidiol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a sicrhau arbedion i'r gyllideb, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | **Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio dull effeithiol o gynllunio arbedion, sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol**<br>• yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2015-16:<br>– adroddodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 98% o'i arbedion arfaethedig yn ystod blwyddyn 2015-16 a gall ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni;<br>• trefniadau cynllunio ariannol:<br>– mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol effeithiol.<br>• Cynllun Arbedion 2016-17:<br>– mae gan y Cyngor gynlluniau arbedion effeithiol a rhagwelir y bydd yn cyflawni ei dargedau arbedion ar gyfer 2016-17; fodd bynnag, nid oes digon o fanylder yn yr adroddiadau ar arbedion a gyflwynir i aelodau. | C1 Cryfhau'r trefniadau monitro ariannol trwy gynnwys y cynnydd yn erbyn arbedion arfaethedig mewn adroddiadau monitro a rheoli cyllidebau. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad perfformiad lleol yn seiliedig ar risg** | | | |
| Mai 2017 | **Adolygiad dilynol o'r Asesiad Corfforaethol**<br>Adolygiad o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiad asesu corfforaethol 2016. | **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y mwyafrif o'r cynigion ar gyfer gwella ers adroddiad asesu corfforaethol 2016**<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod blaenraglenni gwaith y Cyngor yn fwy cydgysylltiedig ac mae cofnodion cyfarfodydd cyhoeddus wedi gwella, ond er bod camau wedi'u cymryd i wella ansawdd yr adroddiadau i gynghorwyr, mae lleiafrif bychan o adroddiadau yn parhau i fod yn anodd eu deall;<br>• mae'r Cyngor wedi adolygu ei allu AD ac wedi diweddaru ei drefniadau ar gyfer cefnogi rheolwyr llinell ac ar gyfer adrodd a monitro absenoldebau salwch, ond mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y camau hyn;<br>• nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynnydd hyd yma o ran cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad asedau;<br>• aeth y Cyngor ati ar unwaith i ddiweddaru ei Strategaeth Reoli Gwybodaeth ac er ei fod wedi ystyried cyfeiriad TGCh yn y dyfodol yn ofalus, mae angen gwneud rhagor o waith ar drosi hyn i strategaeth TGCh; ac<br>• mae'r Cyngor wedi cryfhau ei ddull o reoli risg ac mae'n parhau i ysgogi ei weithrediad er mwyn sicrhau cysondeb ar draws meysydd gwasanaethau. | Nid oes unrhyw gynigion ychwanegol ar gyfer gwelliant yn deillio o'r archwiliad dilynol, ond byddem yn disgwyl i'r Cyngor barhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynigion gwreiddiol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Mai 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol i adrodd ar welliant. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| | **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** Adolygiad Cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. | Gellir gweld yr adroddiad hwn trwy ddilyn y ddolen hon: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam | Nododd yr adroddiad bedwar maes i'w hystyried:<br>• dylai'r awdurdod lleol ystyried adolygiad cynnar o effeithiolrwydd a chynaladwyedd ei fodel comisiynu newydd.<br>• dylid cynnal gwerthusiad er mwyn pennu sut mae'r problemau presennol o ran gallu yn effeithio ar drefniadau darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br>• dylai comisiynwyr adolygu effaith lefelau ffioedd a pha un a oes cysylltiad rhwng recriwtio a gallu darparwyr i is-gontractio gwaith; dylai'r awdurdod lleol bennu ffyrdd o gynnwys cymhelliant ar sail canlyniadau i ddarparwyr, yn unol â'i achos busnes gwreiddiol.<br>• dylai'r awdurdod lleol adolygu ei systemau sicrhau ansawdd ac archwilio'r ffordd orau o ymateb i bryderon pobl ynghylch dilyniant gofal a materion eraill sy'n effeithio ar ansawdd gofal. |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

Mae mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'.

Mae'r asesiad o welliant blynyddol yn ystyried pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi pa un a yw'n credu (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod ac i Weinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), gan ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Y Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Mark Pritchard – Arweinydd
Dr Helen Paterson – Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Cyfeirnod: DO16-012

Dyddiad: 17 Tachwedd 2016

Annwyl Gynghorydd Pritchard a Dr Paterson

### Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol i sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifo cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifo;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifo yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Yn rhan o fenter y Cyngor i ddwyn ei waith o baratoi ei gyfrifon ymlaen, cafodd y datganiadau ariannol drafft eu paratoi ym mis Mai 2016, oddeutu pedair wythnos yn gynharach na mewn blynyddoedd blaenorol. Er gwaethaf yr amserlen fyrrach o ran amser, canfuom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiadau ariannol drafft yn berthnasol a dibynadwy a'u bod wedi eu paratoi i safon uchel.

Rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifo, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i drafodion ariannol ar 8 Awst 2016, oddeutu wyth wythnos yn gynharach na mewn blynyddoedd blaenorol. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o archwiliad y cyfrifon yn fy adroddiad ar Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 28 Gorffennaf 2016.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau ar 8 Awst 2016.

## Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i gael ei ddangos neu lle y gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Nid yw’r gwaith a wnaed gennyf hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi canfod materion o bwys a fyddai’n effeithio ar gyfrifon 2015-16 nac ar systemau ariannol allweddol.

Cytunodd y Cyngor i gymryd rhan yn ein ‘arbrawf canlyniadau’ ar grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Nod ein ‘arbrawf canlyniadau’ yw rhoi prawf ar ddichonoldeb dull newydd sy’n seiliedig ar ganlyniadau. Mae’r arbrawf yn cymryd i ystyriaeth sut y mae Llywodraeth Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno gwella gwerth ac effaith gwaith ardystio drwy symud ymdrechion archwilwyr oddi wrth profi trafodion ariannol a thuag at ystyried y gweithgareddau sydd i’w darparu drwy’r cyllid. Rydym i fod i gwblhau ein gwaith ym mis Rhagfyr 2016 a byddwn yn adrodd ar ganlyniad yr arbrawf i Lywodraeth Cymru ac i’r Pennaeth Cyllid maes o law.

Nid yw fy ngwaith parhaus ar ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau, cysylltiedig â grantiau nad ydynt yn grantiau Llywodraeth Cymru, wedi canfod unrhyw faterion o bwys hyd yma o ran y cyfrifon na systemau ariannol allweddol y Cyngor. Byddaf yn adrodd i’r Pennaeth Cyllid am unrhyw faterion allweddol pan fydd rhaglen waith ardystio eleni wedi’i chwblhau.

Disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â’r ffi y cytunwyd arni, sydd wedi ei nodi yng Nghynllun yr Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Crynodeb o gynigion gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, a gafodd eu cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad ar gyfer 2014-15 (**Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru**, Ebrill 2015), gwnaethom sawl argymhelliad i awdurdodau lleol. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac roedd angen i awdurdodau wneud gwaith pellach i ymdrin â hwy yn ystod 2016-17. Yn ogystal â hyn, gwnaed yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ein hadolygiad mwy diweddar:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'u cynlluniau gwasanaeth a'u blaenoriaethau corfforaethol;<br>• cyfochri strategaethau eraill allweddol fel cynlluniau rheoli'r gweithlu a rheoli asedau â'r CATC;<br>• datblygu cynlluniau arbed cynhwysfawr aml-flwyddyn wedi eu costio'n llawn, sydd yn sail ar gyfer cyfnod y CATC, ac nid ar gyfer y gyllideb flynyddol sydd ar ddod yn unig;<br>• rhannu cynigion arbed yn gategorïau fel bo modd monitro'r newid oddi wrth arbedion traddodiadol tuag at arbedion trawsnewidiol dros gyfnod y CATC; a<br>• sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer sicrhau arbedion penodol yn realistig, a bod atebolrwydd dros eu cyflawni wedi'i neilltuo'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl.<br>A3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cronfeydd wrth gefn, sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig, ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y CATC.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro'r CATC.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbed yn cynnwys digon o fanylion er mwyn sicrhau bod aelodau'n deall yn glir yr hyn y bwriedir ei gyflawni drwy'r cynlluniau, a bod modd craffu'n briodol ar y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gapasiti a gallu corfforaethol i gefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed yn y CATC ar y cyflymder angenrheidiol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid – sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol – gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i’r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well drwy gyflwyno strategaeth genedlaethol i ddisodli’r fframwaith cynllunio presennol, a chefnogi hynny â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy’n canolbwyntio ar gyflawni’r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig o ran diogelwch cymunedol.<br>A2 Gwella gwaith partneriaeth strategol drwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn ffurfiol i ddisodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol. Dylai’r strwythurau newydd hyn ffurfioli a chyfuno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy’n trafod gwaith yr holl bartneriaid, ac sy’n nodi’n glir sut y gellir cyfrannu at gyflawni’r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, yn lleol ac yn rhanbarthol.<br>A4 Adolygu’r trefniadau presennol ar gyfer ariannu grantiau a symud tuag at gyllidebau cyfun ac iddynt ymrwymiadau ariannu tymor hwy er mwyn helpu cyrff cyflawni i wella gwaith cynllunio prosiectau a’r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau’r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad o ran diogelwch cymunedol yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol ar bob lefel i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i farnu ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ar fewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu.<br>A6 Adolygu’r systemau ar gyfer rheoli diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy’n canolbwyntio ar roi sicrwydd i’r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn creu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella’r dull o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus o ran:<br>• datblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm | Gwnaed wyth argymhelliad yn yr adroddiad hwn, chwech ohonynt yn mynnu gweithredu gan awdurdodau lleol. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu ynghylch Argymhellion A4 ac A6:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad pendant rhyngddynt â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, phan fo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith pryd bynnag yr ystyrir newid taliadau.<br>A5 Nodi cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd am unrhyw newidiadau i ffioedd i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar alwad, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel y bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagweld incwm o daliadau drwy gynllunio sefyllfaoedd a dadansoddi sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y Mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | Gwnaed tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn, dau ohonynt yn mynnu gweithredu gan awdurdodau lleol. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu ynghylch A3:<br>A1 Er mwyn cael y gorau o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i gefnogi eu gwaith â'r trydydd sector. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, argymhellir y dylai swyddogion awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol:<br>• hunanwerthuso ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arferion cyfredol o ran y trydydd sector;<br>• canfod lle mae angen gwella'r trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar y cyd er mwyn ymdrin â'r bylchau a'r gwendidau a welwyd drwy hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanio atebolrwydd ac yn cyfyngu'r gallu i graffu'n effeithiol ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector. Er mwyn atgyfnerthu'r oruchwyliaeth dros y trydydd sector, argymhellir y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygu a gwblhawyd gan swyddogion, a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol yn rheolaidd wrth ymateb i fylchau a gwendidau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru